AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 224 Ebrill – Mai 2020

# Gwyliedydd






# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Hoffwn i gychwyn efo un o fy hoff storïau. Ymddiheuriadau os ydych chi wedi clywed y stori o'r blaen, ond fel mae pob plentyn yn gwybod, mae stori dda yn werth ei chlywed eto (ac eto ac eto!).

Felly, i ffwrdd â ni... Amser maith yn ôl, roedd pentref tlawd iawn. Roedd pawb eisiau bwyd drwy'r amser. Roedd bywyd yn ddiflas. Un diwrnod, daeth gwraig ddoeth i'r pentref. Gwelodd fod pawb eisiau bwyd, ac meddai hi, "Dwi am wneud cawl blasus, maethlon i chi." Cymerodd sosban fawr a'i rhoi ar y tân efo digon o ddŵr a llond llaw o gerrig. Edrychodd pawb yn syn arni – gwraig ddoeth oedd hon i fod! Dechreuodd pobl dosturio wrthi yn ei thwpdra, a dyma nhw'n penderfynu, o un i un, eu bod am ei helpu. Aeth un i ffwrdd a dod nôl efo nionyn i'w roi yn y sosban; daeth un arall â thaten, un arall wedyn ag ychydig o berlysiau. O rywle arall daeth moronen, ac wedyn ychydig o ffa, wedyn mwy o lysiau, a phopeth yn mynd i mewn i'r sosban. Cyn pen dim o dro, roedd cawl llysiau blasus yn berwi ar y tân. Daeth pawb at ei gilydd, yng nghwmni'r wraig ddoeth, i eistedd i lawr i fwyta. Roedd digon o gawl i bawb a phawb yn hapus iawn. Cytunwyd mai'r cawl cerrig oedd y pryd o fwyd gorau gafodd neb ers blynyddoedd, ac roedd pawb am gael y rysáit!

Rwyf wrth fy modd efo'r stori yna am ei bod yn sôn am gydweithio a chydweithrediad, a sut mae gweithred fach yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr, er lles pawb. Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*, mi fydda i o leiaf mis i mewn i gyfnod sabothol o dri mis, yn unol â Rheol Sefydlog yr Eglwys Fethodistaidd 744 (gweler <http://www.methodist.org.uk/cpd>). Byddaf ar daith ysbrydol fwriadus trwy dymhorau'r Grawys a'r Pasg, yn cynnwys encilio, pererindota ac agosáu at Dduw drwy weddïo, myfyrio a cheisio ei bresenoldeb. Ochr yn ochr â'r daith ysbrydol hon, byddaf yn dilyn rhaglen o ddarllen a myfyrio ar arweinyddiaeth Gristnogol, gan geisio mewnwelediad i arweiniad Iesu ei hun, a meddwl am y seintiau Celtaidd ac Eingl-sacsonaidd, John a Charles Wesley, a dysgeidiaeth gyfoes ar arweinyddiaeth. Dydw i ddim wedi methu'r eironi fod hyn yn bosibl am fy mod yn tynnu'n ôl o swydd arweinydd am gyfnod! Drwy gydweithrediad eraill y mae'n bosibl ac rwyf yn ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n gofalu am fywyd Synod Cymru, yn ogystal â'm cyfrifoldebau eraill yn y Cyfundeb Methodistaidd, tra byddaf ar Sabothol.

Mae cydweithrediad yn beth braf, yn arbennig pan fyddwn yn dwyn pwys a gwres y dydd – tipyn bach fel yn stori'r cawl cerrig! Yn sicr ni ddylem weithio yn erbyn ein gilydd pan fyddwn dan bwysau. Wrth i mi feddwl am y materion sydd ar agenda cyfarfod Synod Cymru eleni, sylweddolaf fod dau beth, o leiaf, sydd yn arwyddocaol iawn. Mae angen i'r Synod bleidleisio ar "ddarpar-benderfyniadau" y Gynhadledd ar adroddiad ***Duw mewn cariad sy'n ein huno*** (www.methodist.org.uk/MandR19). Yn ogystal, mae opsiynau i'w rhoi gerbron y Synod mewn perthynas â dyfodol Cylchdaith Cymru. Mewn cymdeithas sydd mor aml yn rhanedig, mae gan Gristnogion fwy o gyfrifoldeb nag erioed, rwy'n credu, i ddangos undod a chydweithrediad yng nghariad Duw, sy'n ein huno, pa mor anodd bynnag yw'r heriau a wynebwn. Wrth i ni edrych ar y byd o'n cwmpas, mae'n amlwg nad yw hi'n adeg i ychwanegu at y tensiynau a'r rhaniadau sy'n bodoli. Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd yn gadarnhaol trwy wrando'n ofalus ar ein gilydd; siarad ac ymddwyn gyda pharch bob amser; hyrwyddo didwylledd a hyder yn ein hymwneud â'n gilydd; peidio byth â bod yn fygythiol tuag at ein gilydd, hyd yn oed pan fyddwn yn anghytuno. Petaem ni i gyd yn gallu gwneud hyn, byddem gam yn nes at ddyfodiad Teyrnas Dduw yn ei holl gyflawnder, ac yn cydweithio â Duw i ateb ein gweddïau ein hunain.

Mae'r Pasg yn agosáu, pan gofiwn am gydweithrediad Duw'r Creawdwr ac Iesu'r Mab, yn nerth yr Ysbryd Glân, i ennill iachawdwriaeth y byd trwy hunanaberth cariadus. Mae'r Drindod Sanctaidd yn fodel ac yn batrwm i ni o undod mewn amrywiaeth ac o gydweithrediad graslon, er lles pawb a phopeth. Er gwaethaf peryglon a loes y croeshoelio, fe wnaeth Iesu gydweithio â bwriadau ei Dad, a hyn yn arwain at ddyfodiad yr Ysbryd, adeg y Pentecost, a phosibilrwydd o lawnder bywyd i bawb. Os ydym yn ceisio dilyn yr Iesu, dyna'r math o gydweithrediad y byddwn ninnau'n ei geisio, er mwyn bywyd, cariad, cyfiawnder a heddwch i bawb. Holl fendithion y Pasg i chi.



# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 224**
**EBRILL – MAI 2020**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
1 MAI 2020

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Diane Brennan


# Rhoddion

Diolch yn gynnes iawn unwaith eto i unigolion ac eglwysi am bob rhodd tuag at gyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.

| | |
|---|---|
| • Angharad, Geraint, Bronwen a Dewi er cof annwyl am eu rhieni, Y Parchg Owen E a Mrs Margaret Evans | £60.00 |
| • Mrs Eira Owain, Caernarfon, er cof annwyl am ei phriod Mr Owain Owain | £25.00 |
| • Ebeneser, Dolgellau | £100.00 |
| • Dr Telfryn Pritchard, Evesham | £40.00 |
| • Pendref, Dinbych | £50.00 |
| • Ms Carolyn Watts, Yr Wyddgrug | £5.00 |
| • Mrs M.E. Roberts, Abergele, er cof annwyl am ei phriod Mr Euryn Roberts | £30.00 |
| • Llyfrgell Caerdydd | £5.00 |
| • Mrs Myfanwy Povey, Wrecsam | £20.00 |
| • Ebeneser, Eglwysbach | £25.00 |
| • Mr Eryl Davies, Caerwys, er cof am ei daid y Parchg H. Meirion Davies | £30.00 |
| • Salem, Rhyd-y-Foel | £25.00 |
| • Mrs M.R. Davies, Ffair Fach, Llandeilo | £5.00 |
| • Horeb, Llanrwst | £40.00 |
| **Cyfanswm** | **£460.00** |

# Y Ffordd Ymlaen

Ar y clawr y tro hwn fe welwn lwybr dymunol y byddai'n braf ei ddilyn. Mae'n rhaid i ni yn Synod Cymru ddewis pa lwybr i'w ddilyn ac nid oes yr un llwybr hawdd. Mae'n rhaid dewis oherwydd allwn ni ddim aros yn ein hunfan.

Beth fydd y ffordd ymlaen i ni yn y rhan Gymraeg o'r Eglwys Fethodistaidd? Pa oleuni sydd i'w gael?

**Os gwelwch yn dda, darllenwch beth mae'n ei ddweud ar dudalennau 8 a 9** yn y rhifyn hwn. Mae'n rhoi darlun llawn ac yn egluro beth sydd yn bosibl.

Fel mae Jennie'n pwysleisio yn 'O'r Gadair' ar y dudalen gyferbyn, mae'n rhaid wrth gydweithrediad a chariad wrth inni fynd ymlaen mewn ffydd. Beth am inni i gyd ymuno i weddïo y cawn gyda'n gilydd hyd i ffordd i barhau i wasanaethu Duw, hyd yn oed yn yr amgylchiadau dyrys y cawn ein hunain ynddynt.



Wrth i'r *Gwyliedydd* fynd i'r wasg mae'r sefyllfa gyda phandemig y coronafirws yn dwysáu. Gweddïwn am nerth Duw, yn arbennig i'r rhai sy'n sâl, yn ofnus neu'n unig, a phawb sy'n gofalu am eraill ar adeg fel hyn.

*Ffion a Robin*

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Diddorol oedd darllen yn ddiweddar am ddarganfyddiad a wnaed gan archeolegwyr a fu'n cloddio ym mynyddoedd Lebombo yn Ne Affrica. Wrth archwilio aelwydydd a thomenni lludw cafwyd hyd i wreiddiau tebyg i datws oedd yn amlwg yn rhan o fwyd trigolion yr ardal 170,000 mlynedd yn ôl. Gwreiddiau'r planhigyn Seren Felen (*Hypoxis Angustifolia)* oedd y rhain. Roedd eu darganfod yn brawf bod carbohydrad yn rhan o fwydlen y trigolion. Fe wyddid bod cig wedi'i goginio yn cael ei fwyta ers dwy filiwn o flynyddoedd ond wrth ychwanegu gwreiddiau roedd y protein yn cael ei dreulio'n well. Mewn gair roedd y cyfuniad o gig a gwreiddiau yn gwella iechyd ac yn ychwanegu at hirhoedledd y boblogaeth. Gellid bod wedi bwyta'r gwreiddiau yn amrwd ond roedd y ffaith eu bod wedi'u cludo gartref yn arwydd bod lles y teulu yn cael ei ystyried yn bwysig gan bobl Oes y Cerrig.

Cafwyd hyd i olion o gyfnod cynharaf Oes y Cerrig ym Mhrydain yn Eartham, Sussex, yn dyddio o 350,000 CC. Yma ar dir Cymru darganfuwyd olion dynol mewn ogof yn Nyffryn Elwy sy'n dyddio 250,000 CC. Mynd a dod oedd hanes trigolion Prydain oherwydd y rhewlifoedd ond ar dir Ewrop o 28,000 CC ymlaen gwelir datblygiadau diwylliannol gyda pheintiadau mewn ogofâu fel y rhai a geir yn y Dordogne. Fe gredir bod yr enwocaf o olion hynafol Cymru yn dyddio o 24,000 CC sef Dynes Goch Paviland. Bellach fe wyddom mai dyn ifanc a gladdwyd yn yr ogof a bod yr esgyrn wedi'u lliwio'n ofalus. Awgryma hyn fod defod grefyddol yn rhan o'i gladdu. Gellir dweud felly gyda chryn sicrwydd fod yna feddylfryd crefyddol yn bodoli yng Nghymru o gyfnod y



Ogof Paviland

sgerbwd yn Paviland.

Efallai mai'r cromlechi a ymddangosodd o 3,000 CC ac ymlaen yw'r prawf cadarnaf bod parch yn cael ei ddangos i'r meirw. Nid yn unig bod y rhain yn ganolfannau i ddefodau cymdeithasol ond maent hefyd yn arwydd o gydweithio rhwng y llwythau. Ni ellir ond synnu at weithgaredd pobl y cromlechi o ddeall bod y cynharaf ohonynt wedi'i godi 1,500 mlynedd cyn pyramid hynaf yr Aifft.

Datblygiad pellach oedd yr *henge* fel yr un a godwyd yn Llandegai ger Bangor oddeutu 3650 CC ynghyd â'r un a godwyd yn Sarn y Bryn Caled gerllaw Trallwm rhwng 3000–2800 CC. Mae'n amlwg bod yr hen gromlechi yn rhy fach bellach i'r tyrfaoedd a fyddai'n dod yno i fasnachu ac i gynnal defodau torfol.

Mewn cyfnod ychydig yn ddiweddarach oddeutu 2200 CC fe godwyd Bryn Silbury ac nid nepell o'r lle hwnnw codwyd Côr y Cewri rhwng 2800-1400 CC gan ddod yn fan denu pobl am yn agos i 5000 o flynyddoedd. Mae'r meini a welir yno yn brawf o gydweithio rhwng llawer iawn o bobl ac ni ellir ond cytuno bod pwrpas ysbrydol wedi ysgogi'r fath adeiladwaith.

Mae'n bur amlwg bod trigolion Cymru a gweddill Prydain wedi crwydro yma dros filoedd o flynyddoedd. Ond y bobl a gyfrannodd un o'r pethau pwysicaf inni oedd y Celtiaid a ddaeth yma o Ewrop o 600 CC ymlaen. Ganddynt hwy cawsom yr iaith Frythoneg a ddatblygodd dros ganrifoedd maith yn Gymraeg ein dyddiau ni. Mae tystiolaeth o wlad Gâl yn profi bod ganddynt offeiriadaeth a oedd yn gwarchod eu diwylliant a'u crefydd. Prawf o hyn yw enwau'r duwiau oedd ganddynt sy'n bodoli heddiw mewn ffurfiau fel Nudd, Taran, Lleu a Mabon. Digon yw dweud mai gwrthwynebwyr ffyrnicaf y Rhufeiniaid oedd y derwyddon ar Ynys Môn yn y flwyddyn 60 OC. Felly pan ddaeth y Rhufeiniaid i Gymru gyntaf roedd yma bobl o gred ac argyhoeddiad. Pan aeth milwyr Rhufain adref yn 476 OC roedd pobl Cymru wedi dechrau ar eu taith i ddod yn Gristnogion. Fe gymerodd gryn amser i Gristnogaeth gael gafael ar drigolion Cymru a Phrydain. Mae'r hanes yn un o ymroddiad gan filoedd lawer o bobl ddewr. Bu llwyddiant rhyfeddol a methiannau trist. Ond y cwestiwn i'w ofyn yw *"A oes dyfodol i Gristnogaeth gyfundrefnol yn ein gwlad bellach?"*. Nid oes angen proffwyd craff i ddarogan y bydd llawer o fannau cysegredig yn cau fel y bu yn hanes diweddar Eglwys Llanfihangel-yng-ngwynfa eleni a chapel enfawr Ebeneser, Caernarfon y llynedd. Bydd llawer o addoldai llai yn eu dilyn yn ddi-os. Dyna pam y mae'n rhaid i **aelodau'r HOLL enwadau** roi cefnogaeth frwd i'r strategaethau sydd wedi'u llunio gan yr arweinwyr. Mae cynlluniau diddorol gan yr Eglwys yng Nghymru i ddathlu canmlwyddiant y Datgysylltu yn haeddu sylw a chefnogaeth. Mae rhaglen yr Eglwys Bresbyteraidd i sicrhau bod canolfannau addoliad yn cael eu datblygu yn bwysig a'r gwaith cenhadol gan y Bedyddwyr yn haeddu llwyddiant. Rhaid canmol y defnydd o dechnoleg newydd gan Undeb yr Annibynwyr ac ymdrechion yr Eglwys Fethodistaidd i archwilio 'Y Ffordd Ymlaen'.

Ym mlwyddyn ymadawiad Prydain o Ewrop mae'n drist meddwl y gall y grefydd a ddaeth atom drwy ymdrechion cenhadon o'r cyfandir ddiflannu'n llwyr mewn byr o amser os bydd ymdrechion yr enwadau yn methu. Ai troi yn wlad baganaidd fydd hanes Cymru neu a oes obaith y daw Cristnogaeth yn grefydd y mwyafrif eto? ***Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn eich dwylo chi.***



# O’r Pen Yma gan Angharad Tomos

Darllenais yn ddiweddar am syniad da yn Sweden. Mae unigrwydd yn broblem fawr yn y wlad honno, fel ag y mae mewn sawl gwlad, ond penderfynodd Sweden wneud rhywbeth ynglŷn â’r mater. Wrth addasu hen gartref gofal yn Helsinborg, penderfynwyd cyfyngu ar y bobl gâi fod yn denantiaid. Roedd yn rhaid i chi fod dan 25 oed, neu ar eich pensiwn. Y rheol arall oedd fod yn rhaid i’r ddau grŵp oedran gymysgu efo’i gilydd am o leiaf ddwy awr yr wythnos. Arbrawf ydoedd, ond mae wedi bod yn arbrawf llwyddiannus.

Nid dim ond y bobl hŷn oedd wedi cael problem efo unigrwydd. Roedd y bobl iau yn dweud fod bywyd yn newid wedi iddynt symud o gartref neu adael y coleg. Yr arferiad yw i bobl fyw ar eu pennau eu hunain. Byddent yn codi, mynd i’r gwaith, cael eu bwyd, a mynd i’r gwely, a gallai bywyd fod yn unig iawn.


Yn y fflatiau, mae digon o ystafelloedd cymunedol. Mae cegin i bawb goginio, stafell olchi, lle cadw yn heini, ac ystafell fyw. Yr hyn sy’n bwysig yw fod yr adeilad yn cynnig cyfleoedd i bobl gyd-fyw. Weithiau, mae rhywun yn fodlon ar ei ch/gwmni ei hun, ond dro arall, mae rhywun yn crefu am fod ymysg eraill. Yn y fflatiau hyn, maent yn cael y gorau o ddau fyd. Roedd un wraig ifanc ac un hŷn wedi dod yn ffrindiau. “Mae wedi fy helpu efo fy nghompiwtar,” meddai’r wraig hŷn. “Dwi wedi canfod ei bod yn lot o sbort, a dwi wedi dysgu lot ganddi,” meddai’r wraig iau.

Nid yw bywyd yn berffaith yno, wrth reswm. Mae anghydfod yn codi, fel ag y mae mewn unrhyw deulu. Ond dim ots, peth felly yw bywyd. A dyma fo’n fy nharo i – mae safon bywyd pobl wedi cynyddu yn fawr yn yr hanner canrif ddwytha, ond mae gofal am ein gilydd wedi cymryd cam yn ôl. Am fod yna wasanaeth iechyd, rydym wedi mynd yn gymdeithas pawb-drosto’i-hun, ac wedi gwahanu cymdeithas o ran oedran. Mae cenedlaethau gwahanol yn ddieithr i’w gilydd.

Nid felly oedd hi ers talwm, fel yr atgoffodd y darn hwn o ‘Cwm Eithin’, Hugh Evans i mi, gyhoeddwyd bron i ganrif yn ôl –

‘Yr oeddwn cyn hoffed o gwmni hen bobl pan oeddwn yn hogyn ag wyf o gwmni plant yn awr; a ....thrown at hen bobl y ‘Sendy a fyddai bob amser yn sefyll â’u pwysau ar y wal pan fyddem yn chwarae, neu yr hen *stonecutter* dall oedd yn byw wrth dalcen yr ysgoldy.’

Rydym angen ein gilydd, o bob oed. Ac os nad oes cyfle naturiol i bobl o wahanol oedran gymysgu yn ein cymuned, yna mae siawns i ni greu y cyfleoedd hyn. O ganlyniad, mae pawb ar ei ennill.



# Cyfarfod â’r Iesu Atgyfodedig

*gan y Parchedig Richard Gillion*

Pan fyddwn ni, weinidogion a phregethwyr, yn arwain pobl Dduw trwy’r Grawys a’r Wythnos Fawr, mae’n rhaid inni ar yr un pryd fod wrthi’n meddwl ymlaen at y Pasg. Mae’n anodd gwerthfawrogi weithiau pa mor syfrdanol ac ysgytwol oedd profiad y disgyblion cyntaf pan wawriodd y bore hwnnw.

Gwelwn wahanol gymeriadau yn gwneud eu darganfyddiad personol, pob un yn ychwanegu ei ran at jig-so, neu dapestri, atgyfodiad Iesu.

Yn gyntaf, Mair Magdalen a’r gwragedd eraill, yr apostolion i’r apostolion, a’r cyntaf oll i rannu newyddion da yr atgyfodiad.

Wedyn Ioan, crediniwr ffyddlon, nad yw ei lysenw cynharach, Mab Taranau, yn gweddu’n hollol iddo bellach. Simon Pedr yn ei oddiweddyd i gyrraedd y beddrod, yn fyrbwyll ac yn rhuthro i mewn. Gwelodd Pedr y dystiolaeth gorfforol, ond heb gael ei argyhoeddi’n ddigonol eto i fod yn faen (ystyr Pedr), ar ôl simsanu fel corsen (ystyr Simon).

Tomos – nid yn anfodlon credu, ond yn mynnu cael gwell tystiolaeth na chwedlau cynhyrfus yn deillio o wibdaith emosiynol grŵp o bobl ofnus.

A Paul. Nad yw’n un o’r deuddeg yn yr Efengyl, nac yn un o’r grŵp ehangach. Yn wir, roedd yn elyn ffyrnig i gylch cynyddol y disgyblion, ar ôl yr Esgyniad a’r Pentecost.

Ond iddo ef, yr hyn a’i gwnâi’n apostol oedd ei alwad a’i gyfarfyddiad â’r Iesu atgyfodedig.

Felly nid yw’r tystion wedi’u cyfyngu i’r deuddeg, neu eu ffrindiau, neu gredinwyr diweddarach a oedd yn cofio gweinidogaeth gynharach Iesu. Na hyd yn oed y rhai a gyfarfu â phobl oedd wedi gweld Iesu. Ond pobl mewn unrhyw genhedlaeth sydd wedi dod ar draws Iesu Grist drostyn nhw eu hunain.

Fyddai hynny ddim yn ddiffiniad gwael o beth yw Cristion: rhywun sydd wedi cyfarfod â’r Iesu atgyfodedig a chael ei drawsnewid gan y cyfarfyddiad.

# Capel Ni

## yn Eglwys Iesu

### Horeb, Llanrwst




**GWOBR ARBENNIG**
Llongyfarchiadau calonnog i Gwynne Jones, mab Nesta a'r diweddar George Jones, ar ennill gwobr am ymroddiad eithriadol yng Ngwobrau Tai Cymru a drefnwyd gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn ddiweddar. Mae Gwynne yn gweithio fel rheolwr gyfarwyddwr gyda Chartrefi Conwy ac fe enillodd y gymdeithas dai arloesol hon bedair anrhydedd yn y gwobrau. Yn Rhuthun y mae Gwynne yn byw erbyn hyn, ond cafodd ei fagu yn Horeb lle mae ei fam Nesta yn parhau i fod yn aelod ffyddlon, yn organydd ac ysgrifennydd y capel.

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau i Arwel ac Elfrys Roberts ar ddod yn daid a nain yn ddiweddar. Cafodd Osian Idris ei eni fore Sul, 26ain o Ionawr yn fab bach i Rhys a Jen. Yn yr un modd llongyfarchiadau i'w hen nain, Rona Jones. Mae'r teulu bach yn byw yn Llundain.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Maldwyn a Catherine Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu merch Jill yn frawychus o sydyn yn ddiweddar. Roedd Jill yn nyrs ac yn byw yn Llundain ers blynyddoedd lawer ac yn parhau i fod yn aelod yn y capel. Bu ei hangladd yn Llundain a chynhaliwyd gwasanaeth coffa yn Llanrwst.
**GOHEBYDD .** EIRA JONES

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**ER COF ANNWYL**
Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Josie Lloyd Evans, priod annwyl y diweddar Gerald Evans, mam garedig Yvonne, Gary a Martin a mam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl iawn. Chwaer arbennig i Meta, Iris ac Elizabeth. Bu Josie yn aelod yn Eglwys Preswylfa a hefyd yn cynrychioli'r eglwys ar bwyllgor y Feibl Gymdeithas rai blynyddoedd yn ôl. Bu'r gwasanaeth angladd ym Mhreswylfa dan arweiniad y Parchg Ddr Trevor Hoggard a'r organydd oedd Mrs Jane Jones.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymuniadau gorau i Marian a Paul Bond ar ddathlu eu priodas ruddem.

**PEN-BLWYDD**
Dymunwn yn dda i ysgrifennydd Preswylfa, Mrs Eirian Jones, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Mawrth. Dymuniadau gorau gan y genethod a'u teuluoedd, yr wyrion a'r wyresau a holl aelodau Preswylfa.
**GOHEBYDDION .** EIRIAN JONES A LLINOS GARSTANG

### Pisgah, Rhiwlas

**CYDYMDEIMLO**
Unwaith eto cawsom golled fawr fel Eglwys, gyda marwolaeth Mr John Huw Evans, Bro Rhiwen gynt, ac yn ddiweddar Plas Pengwaith, Llanberis. Cyfeiriodd Mr Neville Hughes yn y deyrnged yn ei angladd at waith John Huw ym Mhisgah fel athro ysgol Sul y dosbarth oedolion am flynyddoedd, a hefyd at ei waith dyfal yn casglu tuag at Gymorth Cristnogol o amgylch y pentref. Anfonwn ein cydymdeimlad at Rhys a Kate, Rhian a Jim, Heledd a Morgan a gweddill y teulu.

**Englyn coffa i John Huw Evans**
Yn wylaidd, bu'n symbyliad hyd ei oes,
diwyd oedd yn wastad,
i'w filltir sgwâr rhoes gariad,
haul ei wên i Gymru'n gwlad.
*Annes Glynn*

**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

### Shiloh, Tregarth

**GWELLHAD**
Dymunwn lwyr iachâd i'r Parchedig Gwynfor Williams ac edrychwn ymlaen at gael ei gwmni eto yn fuan.

**LLONGYFARCHIADAU**
Pob dymuniad da i Iris Harper a theulu Tŷ Newydd, Llandygai. Ganed bachgen bach i Iwan a Sallie, sef Eric Idwal, gor-ŵyr i Iris. Llongyfarchiadau i bawb o'r teulu.

Llongyfarchiadau i Tomos Morris Jones ar gael ei enwebu ar gyfer Gwobrau'r Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) yng Nghymru. Mae Tomos yn olygydd dan hyfforddiant gyda chwmni teledu Cwmni Da yng Nghaernarfon.

**SYSTEM SAIN Y CAPEL**
Mae'r gwaith o wella system sain y capel wedi'i gwblhau ac mae'n gweithio'n arbennig o dda. Diolch o galon i Maldwyn Evans a'i gydweithwyr am eu gwaith rhagorol.

**CROESO**
Mae'n ardderchog cael croesawu aelodau newydd atom i'n gwasanaethau. Yn ddiweddar mae amryw wedi dod i gydaddoli â ni. Croeso mawr a gobeithio y cewch fendith o fod yn rhan o'r addoliad yn Shiloh.

**DRWS AGORED**
Cofiwch fod Drws Agored yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Cyfle am sgwrs, paned a chwmni diddan. Dewch yn llu.



**BEDYDD**
Bedyddiwyd Ifan Llŷr Williams, mab Keith a Rhian Williams, a brawd bach Hari, gan y Parchedig Richard Gillion yn Shiloh ar Fawrth 15fed. Boed bendith arnoch fel teulu.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### Ebeneser, Eglwysbach

**Y GYMDEITHAS UNDEBOL**
Ar nos Wener Ionawr 17 yn y festri cafwyd noson yng nghwmni Osian Hughes, Bryn Hafod. Ar ôl graddio mewn Amaethyddiaeth aeth Osian allan i Seland Newydd, i Ynys y De i weithio am flwyddyn ar fferm gymysg 24,000 acer. Cawsom sgwrs ddifyr gyda lluniau arbennig o'r fferm a'r ardal o'i hamgylch. Diolch i Meira Roberts am drefnu'r noson.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

## Bethel, Rhiwbeina

**GWASANAETHAU BENDITHIOL**
Trwy amryfusedd ni chynhwyswyd y newyddion hyn yn y rhifyn diwethaf. Mae'n werth cofnodi, os yn hwyr, fod llawer o blant a rhieni yn bresennol yn y gwasanaeth Nadolig a'r parti yn Rhagfyr; inni gynnal Gwasanaeth Nadolig bendithiol hefyd dan ofal yr aelodau; a bod y capel yn llawn ar gyfer Gwasanaeth Naw Llith a Charol dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cawsom gwmni aelodau Salem mewn gwasanaeth dan arweiniad ysbrydoledig y Parchedig Lona Roberts ar ddiwedd y flwyddyn.

**CROESO**
Rydym yn falch i groesawu Mr Arfon Roberts nôl i'n plith wedi iddo dreulio cyfnod gyda'i ferch yn Lloegr. Braf yw ei weld yn edrych mor dda.

**COFION**
Rydym yn danfon ein cofion cynhesaf at Pam Davies, Eiluned Davies, Mair Owen a Mair Jones gan obeithio y byddwn yn cael eu cwmni eto cyn hir.

**YR YSGOL SUL**
Mae croeso i bawb sy'n dymuno ymuno â'r Ysgol Sul. Cewch fanylion gan Siân Francis (07886391896).

**GWEITHGAREDDAU'R GYMDEITHAS**
Ar Chwefror 18 mwynhawyd arddangosfa o gwiltiau a sgwrs gyda Mrs Mair Davies am ei gwaith cwiltio. Yna ym Mawrth aethom i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Caffi Fach ac ym mis Ebrill gobeithiwn gael clywed hanes taith Wyn a Julie Jones sydd wedi bod yn teithio yn Fietnam a Cambodia.

**GWASANAETHAU**
Da oedd cael croesawu'r Parchedig Dafydd Andrew Jones a Mr Emlyn Davies i'r pulpud yn ddiweddar a chawsom hefyd wasanaeth Cymun bendithiol yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan. Er gwaethaf y llifogydd ar Chwefror 16, a rwystrodd y pregethwr gwadd rhag cyrraedd, arweiniwyd gwasanaeth hyfryd gan rai o'r aelodau ar y thema 'Goleuni'.

**CYDYMDEIMLO**
Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Mrs Mair Davies sydd wedi colli ei brawd.

**GŴYL DEWI**
Braf iawn oedd cael croesawu Cylch Meithrin Rhiwbeina i'r capel wrth iddynt ddathlu Gŵyl Dewi. Mae'r Cylch wedi bod ar safle Bethel ers nifer fawr o flynyddoedd bellach ac yn ddiweddar buont yn dathlu pen-blwydd yn 60 oed. Ar Fawrth 1 cawsom ddathlu Gŵyl Dewi gyda'r Parchedig Glyn Tudwal Jones.

**PEN-BLWYDD**
Cyfarchion pen-blwydd arbennig i Mr Gwilym Roberts, organydd Capel Bethel ac un a fu'n flaenllaw yn sefydlu Cylch Meithrin Rhiwbeina. Dymuniadau gorau iddo.
**GOHEBYDD .** GWILYM E ROBERTS

## Bethel, Prestatyn

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn falch iawn fod Mrs Eluned Owen wedi gwella digon i ddychwelyd i'r capel. Dymunwn yn dda iddi hi a'r holl aelodau sydd ym methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Anfonwn ein cariad a'n dymuniadau gorau atoch.

**PANED A SGWRS**
Fel rhan o'u gwaith yn dysgu am dref Prestatyn fe ddaeth 60 o blant bach o'r uned dan bump yn Ysgol y Llys i ymuno â ni yn Paned a Sgwrs a hefyd i ymweld â'r capel. Yn dilyn sgwrs fer am yr adeilad cawsom ychydig o eitemau cerddorol gan y plant. Llawer o ddiolch i'r staff a rhai o'r rhieni a ddaeth gyda hwy.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**
Cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Mrs Buddug Jones o fferm Rhydonnen, ynglŷn â hanes y ffermdy.

**HOBETH**
Yng nghyfarfod Cymdeithas Chwiorydd Bethel a Rehoboth ym mis Chwefror, y thema oedd 'trysorau'. Yn dilyn darlleniadau o'r Beibl am drysorau gan Mrs Marilyn Davies cafodd pawb gyfle i ddangos a thrafod eu 'trysorau'. Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod ar bnawn Llun olaf y mis.

**GWASANAETH GWEDDI BYD EANG**
Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ar 6 Mawrth, ynghyd â'n chwaer Eglwys Rehoboth.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchwn y plant ar eu llwyddiannau a'u gwaith caled yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES


**PUM BEDYDD**
Cafwyd dathlu arbennig yn ystod Ionawr a Chwefror wrth i bump o'n plant bach gael eu bedyddio. Ar Ionawr y 5ed bedyddiwyd Tomos Llewelyn gan y Parchedig Arglwydd Roger Roberts. Mab bach Gwydion a Llinos Williams yw Twm a gor-ŵyr i'r Parchedig Cledwyn Parry. Yn dilyn yr oedfa gwahoddwyd yr holl gynulleidfa i rannu mewn cinio hyfryd a baratowyd gan deulu Twm. Braf iawn yw cael cwmni'r teulu, sydd wedi ymgartrefu gyda ni ym Methel ers symud i Brestatyn.

Ar Ionawr 19eg, bedyddiwyd yr efeilliaid bach Marley a Willow a'u brawd mawr Palmer gan y Parchg Brian Huw Jones. Plant i Laura a Paul yw'r tri. Unwaith eto gwahoddwyd pawb i'r festri i fwynhau lluniaeth.

Ar Chwefror 16eg bedyddiwyd Rhiannon Grace, merch fach Siôn Huw a Rachel Davies gan ein gweinidog y Parchg Brian Huw Jones. Chwaer fach Joseff ac Arthur yw Rhiannon ac fel Twm, Palmer, Willow a Marley rydym wrth ein bodd o'u gweld yn rheolaidd yn yr oedfaon a'r Ysgol Sul. Yn dilyn yr oedfa hon hefyd, mwynhawyd lluniaeth gyda'n gilydd.


Yn hytrach na phregeth yn y gwasanaethau bedydd hyn cawsom anerchiad i'r plant gan y Parchg Brian Huw Jones a'i bypedau. Oen bach o'r enw Brian a bachgen bach, hefyd o'r enw Brian! Fe ddaliodd storïau difyr Brian sylw pawb o'r plant (a'r oedolion).

Dymunwn bob bendith i'r pum plentyn bach yma, i'w rhieni a'u rhieni bedydd. Edrychwn ymlaen at eu gweld yn tyfu a datblygu.






# NEGES BWYSIG I HOLL AELODAU SYNOD CYMRU




**Dyma Ddogfen Drafod a Baratowyd gan Bwyllgor Gwaith Synod Cymru - *Gweithio tuag at Synod newydd ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru***

**Y Cefndir**
Yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd Synod Cymru'n wynebu ad-drefnu sylweddol. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd am fod ein sefyllfa ariannol wedi dirywio. Rhai blynyddoedd yn ôl fe wnaeth Synod Cymru uno ei holl gylchdeithiau yn un, ac oddi ar hynny mae Cylchdaith Cymru wedi dibynnu ar gymorthdaliadau sylweddol, yn dod o arian a gronnwyd yn sgil gwerthu adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach. Bellach mae'n edrych yn debyg, os bydd ein gwariant yn parhau yr un fath, y bydd yr arian wrth gefn wedi'i ddihysbyddu cyn pen pedair blynedd. Cyflwynir yma ddau opsiwn, sydd ill dau yn bosibl o safbwynt ariannol ac y gallwn eu cynnal, a bwrw bod cyfraniadau aelodau yn aros yr un fath.

Nid arian oedd yr unig ffactor pan benderfynwyd ad-drefnu rai blynyddoedd yn ôl a chreu un gylchdaith yn unig i'r dalaith gyfan. Ffactor arall oedd prinder pobl, yn arbennig felly weinidogion ordeiniedig i fod yn arolygwyr cylchdeithiau. Drwy uno'r cylchdeithiau bu'n bosibl cael hyd i arolygwr a llenwi nifer o swyddi eraill i ymdrin â chyllid, eiddo, diogelu, gwarchod data, hyfforddi pregethwyr lleol ac arweinyddiaeth ardaloedd. Ni fuasem wedi gallu cael pobl i gyflawni'r swyddogaethau hyn petai'r dalaith yn dal i fod â nifer o gylchdeithiau, pob un yn chwilio am staff. At hynny, golygodd uno ei bod yn rhwyddach sicrhau cymorth bugeiliol gan weinidogion nad ydynt yn perthyn i'r Eglwys Fethodistaidd ond a all weithio i'r gylchdaith fel Gweinidogion Awdurdodedig, oherwydd dan y drefn hon un gweinidog Methodistaidd yn unig sydd ar y dalaith ei angen i fod yn arolygwr.

Mae Opsiwn 1 isod yn golygu ein bod unwaith eto yn wynebu'r un her ag o'r blaen. Yn wyneb y sefyllfa ariannol, yr hyn a wna Opsiwn 1 yw torri'n ôl yn eithafol ar staff ordeiniedig y gylchdaith. Yr her wedyn yw cael hyd i ddigon o leygwyr sydd â'r gallu a'r parodrwydd i gyflawni'r swyddogaethau y mae'n rhaid eu cyflawni o dan drefn yr Eglwys Fethodistaidd. Er enghraifft, mae'n rhaid inni gael hyd i drysorydd newydd ar gyfer y gylchdaith (swydd gyflogedig, ran-amser) erbyn mis Medi. A bydd llawer her arall yn dilyn.

Opsiwn 2 isod yw'r unig opsiwn sy'n agored os penderfyna'r synod yn awr nad ydym yn credu bod gennym ddigon o adnoddau dynol i gyflawni'r swyddogaethau sydd yn ofynnol o dan ein cyfansoddiad. Felly hefyd petaem yn ceisio dilyn llwybr opsiwn 1 ond yn canfod na allwn gael hyd i ddigon o bobl i wasanaethu.

Ar gyfer y ddau opsiwn hyn, bydd angen cydsyniad Wales Synod, er bod y gofynion a wneir ar y cylchdeithiau Saesneg yn wahanol iawn o dan y ddau opsiwn.

Cofiwch fod yn rhaid i'n hopsiynau gydymffurfio ag Arferion Cyfansoddiadol a Disgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd (CPD). Er mwyn bod yn aelod o'r Eglwys Fethodistaidd mae'n rhaid i bob aelod berthyn i gapel lleol; mae'n rhaid i bob capel berthyn i gylchdaith a phob

cylchdaith berthyn i dalaith. Mae'n rhaid i bob cylchdaith fod ag arolygwr sydd yn un o weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd ac mae'n rhaid i bob talaith fod â Chadeirydd sydd yn un o weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd. Mae'n rhaid i aelodau'r gylchdaith ariannu swydd yr arolygwr ac mae'n rhaid i'r dalaith ariannu swydd y Cadeirydd. Gan fod capeli'n gyd-ddibynnol o ran cyllid a gweinidogaeth, y gylchdaith a'r dalaith sy'n penderfynu ar ddyfodol capeli unigol - dyna pam y mae'n rhaid i gapeli gael caniatâd y gylchdaith a'r dalaith cyn gwerthu neu adnewyddu eiddo, er enghraifft. Nid oes gan y capel lleol hawl o dan ein cyfansoddiad ni i ddewis mynd ar ei liwt ei hun. Er y rhoddir ystyriaeth i bob sefyllfa leol, yn enwedig os bydd yn effeithio ar bartneriaethau ecwmenaidd, y gylchdaith a'r dalaith, a'r Gynhadledd yn y pen draw, sydd yn awdurdodi unrhyw drefniant newydd.

Mewn sawl rhan o Synod Cymru, mae rhai o'n capeli eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â chylchdaith Fethodistaidd Saesneg. Mewn mannau eraill mae capeli'n cydweithio â phartneriaid ecwmenaidd. O dan y ddau opsiwn, bydd y cymhorthdal presennol y mae Synod Cymru'n ei dalu lle ceir trefniant i rannu gweinidogaeth, yn dod i ben. Gan hynny, bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ym mhob un o'r mannau dan sylw, gan fod pob sefyllfa yn unigryw. Er hynny, does dim dwywaith nad yw'r newidiadau hyn yn mynd i effeithio ar bob un capel yn y gylchdaith.

**Opsiwn 1**

Synod Cymru yn darfod â bod fel synod annibynnol, a holl ddyletswyddau'r dalaith yn cael eu cyflawni gan gyd-synod newydd a sefydlir i'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.

Byddai Cylchdaith Cymru yn parhau fel cylchdaith annibynnol oddi mewn i'r cyd-synod newydd, ond er mwyn iddi fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol, byddai ganddi lawer llai o staff.

Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid cael lleygwyr sy'n barod i arwain yr Ardaloedd; lleygwyr sy'n barod i fod yn gyfrifol am Blan Pregethu'r Ardal; lleygwyr sy'n barod i hyfforddi fel pregethwyr lleol; lleygwyr sy'n barod i wasanaethu fel ymwelwyr bugeiliol; a lleygwyr sy'n barod i ysgwyddo cyfrifoldeb am bolisïau Diogelu'r gylchdaith. Er mwyn mynd i'r afael â phrinder gweithwyr, gallem wneud rhai capeli yn ganolfan i'w hardal a cheisio cynnal oedfa wythnosol yno ar gyfer yr Ardal gyfan, gan gynnal addoliad yn llai aml yn y capeli eraill. Rhywbeth arall y gallem ei wneud er mwyn ymdopi gyda llai o weithwyr yw uno rhai o'r Ardaloedd, neu sefydlu gweinidogaethau bro newydd (er na fyddai unrhyw gymhorthdal ar gael gan y gylchdaith ar gyfer y rheini).

Os bydd ein cyfraniadau a'n haelodaeth yn parhau yr un fath, yna gallwn fforddio talu am un arolygwr (gweinidog), un trysorydd rhan-amser ac un ysgrifennydd eiddo/cyfreithiwr rhan-amser.

Mae'r Cyfundeb wedi addo talu am alluogwr cenhadu/Cadeirydd cynorthwyol rhan-amser Cymraeg ei iaith, ar gyfer y cyd-synod newydd. Byddai cyfrifoldebau'r swydd hon yn cynnwys cefnogi'r gwaith Cymraeg sy'n bodoli eisoes a hyrwyddo ffyrdd newydd o ymestyn allan i'r gymuned.

**Opsiwn 2**

Synod Cymru yn darfod â bod fel synod annibynnol, a holl ddyletswyddau'r dalaith yn cael eu cyflawni gan gyd-synod newydd a sefydlir i'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.

Byddai Cylchdaith Cymru yn darfod â bod fel cylchdaith annibynnol a byddai'r capeli lleol yn ymuno â'r gylchdaith Saesneg nesaf atynt. Y cylchdeithiau hynny, yn dilyn yr ad-drefnu, fyddai'n gofalu am yr holl ddyletswyddau cylchdeithiol ond byddai cymeriad ac iaith y capeli Cymraeg yn parhau yr un fath oddi mewn i'r cylchdeithiau Saesneg (er y gobeithir y byddai'r opsiwn hwn yn hybu ffyrdd dwyieithog o weithio ym mhob rhan o'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru maes o law).

Mae Opsiwn 2 yn cael ei gynnig fel dewis arall am ei bod yn bosibl y gwelwn nad yw Opsiwn 1 yn realistig. Mae'n bosibl y bydd rhai o aelodau'r synod yn dewis Opsiwn 2 am nad ydynt yn meddwl bod gennym ddigon o weithwyr i Opsiwn 1 allu gweithio. Ond hyd yn oed os bydd y synod yn mynd am Opsiwn 1, mae Opsiwn 2 yn cael ei gynnig fel cynllun i syrthio'n ôl arno, oherwydd mae'n rhaid i ni wynebu'r posibilrwydd mai dyna fydd raid, efallai. Mae angen inni fod â rhyw syniad beth fyddem ni'n ei wneud nesaf petaem yn rhoi cynnig ar Opsiwn 1 ond yn methu â gwneud iddo weithio am nad oedd digon o bobl ar gael i hynny.

Mae Opsiwn 2 yn gofyn llawer gan y cylchdeithiau Saesneg ac mae'n bosibl y bydd Wales Synod yn gwrthod y syniad hyd yn oed os bydd Synod Cymru yn ei ddewis.

Mewn rhai rhannau o Gymru (fel Powys) nid oes cylchdaith Saesneg gyfagos fel y cyfryw. Yn yr achosion hynny, byddai angen trafod â'n partneriaid o fewn yr Eglwys Fethodistaidd er mwyn gweld beth sy'n bosibl, neu gellid gwneud trefniadau newydd gyda phartneriaid ecwmenaidd. Beth bynnag y byddent yn ei wneud, byddai'n rhaid i gapeli lleol barhau i gyfrannu a bod yn rhan o ryw gylchdaith a thalaith Fethodistaidd.

Gydag Opsiwn 2, byddai ysgrifennydd eiddo/cyfreithiwr rhan-amser yn cael ei gyflogi gan ddefnyddio arian wrth gefn Synod Cymru, er mwyn helpu'r cylchdeithiau ar eu newydd wedd i reoli'r adeiladau oedd yn perthyn i Synod Cymru cyn yr ad-drefnu. Arian wrth gefn Synod Cymru fyddai hefyd yn talu am gynnal a chadw'r adeiladau hyn (fel na fyddai'r baich yn syrthio'n syth ar ysgwyddau'r cylchdeithiau Saesneg). Byddai'r arian a addawyd gan y Cyfundeb yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu galluogwr cenhadu Cymraeg.

**Casgliad**

Mae dau beth o leiaf yn glir, hyd yn oed os oes llawer o bethau na ellir eu hystyried tan ryw dro yn ddiweddarach yn y broses. Y peth cyntaf yw, yn ddi-os, fod yn rhaid wrth newid mawr o ryw ddisgrifiad os yw gwaith Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd am barhau. Yn ail, mae'r broses am fod yn un gymhleth a bydd yn cymryd sawl blwyddyn i'w rhoi ar waith, pa bynnag opsiwn a ddewiswn. Allwn ni ddim cael y maen i'r wal oni bai bod pob un ohonom yn meithrin gras Duw, y mae'r Ysbryd yn ei dywallt i'n heneidiau. Yr her sy'n ein hwynebu yw credu bod modd inni ganfod ffordd o drawsnewid yr hyn a wynebwn yn y cyfwng hwn, wrth inni adael i rai pethau cyfarwydd farw, yn gyfle lle daw posibiliadau newydd sef atgyfodiad a bywyd newydd.



# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## Horeb, Croesoswallt

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Beryl Powell, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn 90 oed ddiwedd y flwyddyn. Gwaetha'r modd fe ddioddefodd anffawd a thorri ei chlun ond da iawn yw gwybod ei bod yn gwella ac yn cryfhau.

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Yng nghyfarfod Ionawr daeth Henry Evans o Lansilin atom i ddangos lluniau rhai o adeiladau'r dref, a dynnwyd hanner canrif yn ôl. Syndod fel y maent wedi newid erbyn heddiw! Noson ddiddorol dros ben. Bu'n rhaid gohirio cyfarfod Chwefror ond i ddathlu Gŵyl Dewi ar 2 Mawrth paratowyd swper ac adloniant gan Bryn a Cadi Davies (tad a merch).

**GWASANAETHAU**
Cawsom y fraint o wrando ar y pregethwyr canlynol o bulpudau Horeb a Seion yn ystod yr wythnosau diwethaf:- Y Parchedigion Gwilym O Jones a Dilys Jones, Mr Dafydd Barker Jones a Mrs Beryl Vaughan. Diolch iddynt am eu gwasanaeth.

**ATGYWEIRIO**
Mae llawer o waith cynnal a chadw wedi digwydd ar yr adeiladau yn Horeb ystod y misoedd diwethaf.
**GOHEBYDD .** EURWYN JONES

## Salem, Rhyd y foel

**NOSON GYMDEITHASOL**
Nos Fawrth Ionawr 21ain fe drefnodd Miss Kathleen Williams i BBC Radio Cymru ddod i recordio dwy raglen o Dalwrn y Beirdd o dan ofal y Prifardd Ceri Wyn Jones. Y timau a gymerodd ran oedd Criw'r Ship a thîm Penllyn a thimau Caernarfon a Llanrug. Noson ddifyr dros ben.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Ebeneser, Dolgellau

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Alan ac Alison Woodbridge ar enedigaeth dau ŵyr bach. Ar 1 Chwefror ganwyd Jude Caleb i Hannah a Joe yn Lerpwl ac ar 29 Chwefror ganwyd Calvin Idris i Becky a Richard yng Nghaerdydd. Hefyd ar 1 Chwefror, ganwyd ŵyr i Ron ac Andrea Phillips yn Swydd Derby. Dymuniadau gorau i chwi oll.

**CAPEL CAFFI**
Cynhaliwyd 'Capel Caffi' am yr eildro ar ddydd Sul 2 Chwefror, cyfle i addoli Duw mewn awyrgylch llai ffurfiol nag arfer dros baned a chacennau. Thema'r oedfa oedd y Gwynfydau, a diolchwn i bawb a gyfrannodd at y gwasanaeth mewn unrhyw ffordd, ac yn enwedig i Pat Owen am adael i ni ddefnyddio'r caffi ac am baratoi'r lluniaeth. Gobeithir cynnal y Capel Caffi nesaf ym mis Mai.

**COFION**
Rydym yn anfon ein cofion at Mrs Margaret Baron sydd bellach yn byw mewn Cartref yn y Trallwm, ac sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**YMWELIAD LLYWYDD AC IS-LYWYDD Y GYNHADLEDD**
Fe'n rhwystrwyd gan storm Ciara rhag mynd i Aberystwyth ar gyfer yr oedfa yn ystod ymweliad y Llywydd a'r Is-lywydd, ond aeth rhai ohonom i Landudno ar y dydd Sadwrn a chafwyd amser diddorol dan arweiniad y Llywydd sef y Parchg Ddr Barbara Glasson.

**BLAENORIAID**
Derbyniwyd Mrs Irene Edge yn flaenor newydd a dymunwn bob rhwyddineb iddi yn ei gwaith. Diolch yn fawr iawn i Mrs Mary Davies am ei gwasanaeth fel blaenor dros gyfnod maith a llongyfarchiadau cynnes iddi ar ddathlu ei phen-blwydd yn 95 oed yn ddiweddar.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Vera Thomas, ynghyd â'r teulu cyfan, yn dilyn marwolaeth ei merch Morfydd ar ôl gwaeledd hir. Mae capel Trefor yn agos iawn at galon Mrs Thomas ac rydym yn ddiolchgar iddi am ei haelioni i'r capel. Bydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 cyn bo hir ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddi.

**GWELLHAD BUAN**
Cafodd Mrs Gwyneth Thomas, organydd y capel, ei tharo'n wael yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati, gan ddymuno iddi wellhad buan. Mae colled fawr ar ei hôl yn yr oedfaon. Dymunwn yn dda hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams yn dilyn ei driniaeth yn ddiweddar.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWASANAETH DECHRAU'R FLWYDDYN**
Ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn trefnwyd oedfa arbennig gan Mrs Mair Ellis. Roedd y gwasanaeth wedi ei seilio ar gymeriad Mair, mam yr Iesu. Cymerwyd rhan gan aelodau a chyfeillion o bob oed.

**SUL Y GWAHANGLEIFION**
Mr Huw Ellis oedd yng ngofal y gwasanaeth ar y Sul arbennig hwn a dangosodd inni gymaint o wahaniaeth y mae'r arian sy'n cael ei anfon trwy Genhadaeth y Gwahangleifion yn ei wneud i wella sefyllfa'r cleifion. Anfonwyd £300 i'r elusen, sef casgliad yr oedfa, blychau casglu a chyfraniadau unigol.

Mrs Mair Ellis yw ysgrifenyddes yr elusen yn yr ardal ac mae hi yn barod i dderbyn eich hen stampiau post er budd elusen y gwahangleifion.

**CYDYMDEIMLO**
Ar ddechrau blwyddyn newydd brawychwyd y dref a'r ardal pan glywsom am farwolaeth annisgwyl un o aelodau ffyddlonaf y Tabernacl, sef Mrs Eldrydd Jones, Ty'n Twll. Roedd Eldrydd yn un o'n horganyddion, yn ysgrifenyddes y genhadaeth a bu'n drysorydd yr Ysgol Sul am flynyddoedd lawer. Hi hefyd fyddai'n anfon cardiau ar wahanol achlysuron ar ran aelodau'r capel, ac mae llawer un wedi gwerthfawrogi pob nodyn caredig a dderbyniasant ganddi. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Llinos, Meirion ac Eos, ac Eluned ac Andy a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Ann Jones, Llawr y Cwm yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Gwynfryn, yn sydyn, ddechrau'r flwyddyn. Mae'r teulu wedi dioddef sawl profedigaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac anfonwn ein cofion cynhesaf at Ann ynghyd â Paul, Isabel a'r plant a gweddill y teulu.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Mair Ellis a gafodd anaf i'w phigwrn.

**DYDD GŴYL DEWI SANT**
Eleni cynhaliwyd oedfa Gŵyl Dewi yn y Tabernacl, gyda'r Parchg Peter Williams, Carno yn gwasanaethu. Braf oedd canu emynau gwladgarol eu naws a chael ein hatgoffa o hanes a gwerthoedd Dewi Sant yn ogystal â chael ein hannog i ddyfalbarhau yn ein ffydd, fel y gwnaeth ein nawddsant.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS





## *St Paul, Aberystwyth*

**YMWELIAD ARBENNIG**
Ar ddydd Sul 9 Chwefror cawsom ymweliad gan Lywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd, sef y Parchedig Ddr Barbara Glasson a'r Athro Clive Marsh. Yn y bore cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog y Cymun Bendigaid dan arweiniad Llywydd y Gynhadledd a Chadeirydd Synod Cymru, y Parchedig Ddr Jennie Hurd, gyda'r Is-lywydd yn pregethu. Bu Cadeirydd Wales Synod, y Parchedig Ddr Stephen Wigley, yn cynorthwyo gyda'i sacsoffon fel aelod o'r band. Yn y band hefyd roedd gweinidog Sant Paul, y Parchedig Roger Hides gyda'i soddgrwth. Darllenwyd o'r Ysgrythurau gan Mrs Delyth Evans o'r gynulleidfa Gymraeg a Ms Sue Peterson o'r gynulleidfa Saesneg. Yn anffodus, oherwydd y tywydd stormus, roedd yn amhosibl i amryw deithio i Aberystwyth ac aelodau o'r ddwy gynulleidfa yng Nghanolfan Sant Paul yn bennaf oedd yn bresennol. Wedi'r gwasanaeth trefnwyd cinio blasus a phawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â'n hymwelwyr a diolch o galon iddynt am fentro mor bell ag Aberystwyth yn y tywydd garw.

**DYDD GŴYL DDEWI**
Unwaith yn rhagor eleni cynhaliwyd gwasanaeth unedig ar gyfer holl gapeli ac eglwysi Cymraeg y dref. Daeth cynulleidfa dda iawn i'r addoliad yng Nghanolfan y Morlan. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Eifion Roberts, gweinidog Capel y Morfa.
**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN

## *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Ionawr a Chwefror dan ofal y Parchedig Glyn Thomas, Dilwyn Jones, Royce Warner ac Elizabeth Jones. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfodydd gweddi bendithiol. Cynhaliwyd hefyd oedfa adnewyddu'r cyfamod – traddodiad yr ydym bob amser yn ei ddilyn ym Mhendref.

**FFAIR WANWYN**
Gobeithir cynnal Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa ddydd Sadwrn Mai 2il rhwng 10 a 11.30 y bore
**GOHEBYDD .** MARY JONES




**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang capeli Cymraeg Dinbych ym Mhendref ddydd Gwener Mawrth 6ed. Cymerodd nifer o chwiorydd Pendref ran yn y gwasanaeth bendithiol yma a baratowyd gan chwiorydd Zimbabwe. Addurnwyd y pulpud a'r sedd fawr â chynnyrch o Zimbabwe.

## Eglwys Unedig Colwyn

**CROESAWU'R CADEIRYDD**
Cawsom y pleser o groesawu'r Parchedig Ddr Jennie Hurd i gynnal gwasanaeth yma ar ddechrau'r flwyddyn. Braf iawn oedd cael ei chwmni a'i gwasanaeth.

**CYFARFODYDD GWEDDI UNDEBOL**
Diolch i Marian, Arfon a John am ein cynrychioli yn y Cyfarfodydd Gweddi yn ddiweddar.

**GENEDIGAETH**
Croeso mawr i Leusa Gwen a anwyd i Mari a Dafydd ar Ionawr 29, chwaer fach i Lois Angharad ac wyres i Arfon. Pob bendith i'r teulu bach yn y dyfodol.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Yn Hebron, Hen Golwyn y cynhaliwyd y gwasanaeth eleni a chynrychiolwyd yr Eglwys Unedig gan Gwenllian, Marian, Rhian a Rhiannon.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Ardal Bathafarn

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau calonnog i Ynyr, mab Rhian a Rhodri, a Dyfan ar sefydlu busnes newydd Pŵer Cymru yn Rhuthun. Prif nod sefydlu'r cwmni yw cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb anghenion busnesau am drydan a nwy yng Nghymru a thu hwnt. Dymuniadau gorau i'r ddau.

**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Ynyr a Sioned ar achlysur hapus eu priodas ym Mathafarn ddechrau mis Mawrth. Pob bendith a hapusrwydd i chi eich dau.

**PROFEDIGAETH**
Bu i Meta ac Elizabeth a'r teulu golli chwaer annwyl yn ddiweddar sef Josie Lloyd Evans, Cyffordd Llandudno. Bu Josie'n selog yn hen gapel Wesle Llanelidan pan oedd yn tyfu i fyny. Bu'n nyrsio yn Inffyrmari Dinbych ac yna yn Llandudno. Ar ôl priodi fe ymgartrefodd yn Sir Conwy, a byw yno am bron i drigain mlynedd. Yn ei hangladd ym Mhreswylfa, Cyffordd Llandudno rhoddwyd teyrnged iddi gan Elizabeth a'i hŵyr Ryan. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanrhos.

Ein cydymdeimlad hefyd at Ann Jones, Plas Isaf, o golli chwaer yng nghyfraith, a Siân Parry, Tŷ Ucha'r Llyn a gollodd ewythr. Yr un yw ein cydymdeimlad â Gwyneth, Ceinwen, Arwel a'u teuluoedd sydd wedi colli cyfnither sef Enid Pierce, Llannefydd, a phriod i gyfnither, Eifion Rowlands. Loes hefyd oedd clywed am farwolaeth Gruffydd Parry, Pentrecelyn yn sydyn iawn, ac yntau yn ddim ond chwech ar hugain oed. Meddyliwn amdanoch yn eich hiraeth am anwyliaid.



**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Eileen Davies ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fawrth 5ed.

**GWASANAETH CYTÛN**
Tro'r Tabernacl oedd croesawu pawb ar gyfer y gwasanaeth eleni. Cafwyd sgwrs gan Martin Jones, Eglwys Llanrhydd, a chymerwyd rhan gan Edwina ac Elizabeth yn cynrychioli Bathafarn.

**GWASANAETHAU IONAWR A CHWEFROR**
Cafwyd gwasanaeth y Cymun o dan ofal y Parchedig Jennie Hurd ac Elizabeth ym Mathafarn a Glyndyfrdwy. Diolch i Meta a Beryl am baratoi ar gyfer y gwasanaeth ym Mathafarn, ac i Ann yng Nglyndyfrdwy. Llywyddwyd gan Rhodri ac Elfed a chyfeiliwyd gan Rhian ac Enid. Arweiniwyd gwasanaethau hefyd gan John Griffiths, Rhuthun, a Llinos Mary Jones, Gwyddelwern.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun Gŵyl Ddewi Undebol Rhuthun yn Heol y Parc eleni, ac ym Mhendref y cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd. Byddwn yn dysgu llawer am wledydd y rhai sy'n paratoi gwasanaeth y Dydd Gweddi o flwyddyn i flwyddyn; eleni fe'i paratowyd gan chwiorydd Cristnogol Zimbabwe ar y thema 'Cod! Cymer dy Fatras a Cherdda'.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
A ninnau'n dathlu carreg filltir arbennig, cawsom noson ddifyr o sgwrsio a dangos lluniau dathlu 150 mlwyddiant y capel. Roedd llawer o luniau i'w gweld o gapeli Hirwaen, Clocaenog, Graigfechan, Llanelidan a Bathafarn, sef hen Gylchdaith Rhuthun. Mae'r arddangosfa yn parhau yn y festri. Diolch i Lowri am y trefniadau a hefyd am baratoi sgwrs am 'Draddodiadau'r Grawys' a gweini crempogau hynod o flasus. Llawer o ddiolch am noson arbennig. Roedd y Defosiwn yng ngofal y Parchedig Martin Evans-Jones.

**LLYS AWELON, RHUTHUN**
Diolch o galon i staff Llys Awelon am eu caredigrwydd tuag atom. Cynhaliwyd oedfaon Chwefror yn yr ystafell gysurus yno tra cafodd gwresogydd newydd ei osod ym Mathafarn.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

## GALARNADU YN YSTOD Y GARAWYS

Ysgrifennaf hyn o lith ar gychwyn tymor y Garawys, 2020. Ers rhai wythnosau rwyf wedi derbyn eto eleni amrywiol ddeunydd ar gyfer y tymor pwysig hwn, ond pecyn Cymdeithas Genhadol yr Eglwys (CMS) a ddaliodd fy sylw fwyaf. Lansiwyd eu hymgyrch fyd-eang dan y pennawd uchod a gofynnais i mi fy hun yn syth pam fod y Gymdeithas Genhadol hon tybed am i chi a minnau "alarnadu" yn ystod cyfnod y "deugain nydd a'r deugain nos" sydd yn ein harwain at y Pasg gorfoleddus. A oedd gair o'r fath, sy'n cyfleu galar, wylofain a chwynfan, yn ymddangos braidd yn negyddol gyda llond trol o dristwch hwyrach, ac oni ddylid cael gair a fyddai yn llawn gobaith?

Cefais fy argyhoeddi yn wahanol gan ddeunydd y Gymdeithas Genhadol. Teitl yr adnodd Garawys ganddynt, a baratowyd gan ddiwinyddion amlwg a chan dynnu ar brofiadau cenhadon yn Ne Sudan, yw "Dim ond trwy Lygaid sydd wedi Wylo". Geiriau yw'r rhain a ysbrydolwyd gan yr Archesgob Catholig Christophe Munzihirwa o'r Congo, a gafodd ei lofruddio yn 1996. Dywedodd yr Archesgob: "Gellir gweld rhai pethau yn unig â llygaid sydd wedi wylo". Mae'r ymgyrch yn annog Cristnogion yn ystod y Garawys hwn "i neilltuo amser i alarnadu yn iawn oherwydd yr argyfwng hinsawdd, erledigaethau, hiliaeth, trais, masnach mewn pobl a phethau eraill, er mwyn ein dysgu i bwyso yn fwy dwfn ar Dduw". Astudir "Galarnadu" fel rhan o wrthsafiad ac o weithredu, ac yn bennaf fel elfen o obaith. Llinell olaf o bennill olaf y gerdd "Galarnad" gan Dic Jones sy'n mynnu dod i'r cof - "Ei dawn i wylo yw gwerth dynoliaeth"

## RHANNU'R EFENGYL MEWN ARHOSFA BWS

Dyma bennawd a ddaliodd fy sylw ac yn ogystal enw'r sawl oedd wrthi a'i chysylltiad ar un cyfnod byr â Phlwyf Caernarfon yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Yr enw yw y Parch. Jemima Prasadam: offeiriad sy'n hoff o sgwrsio ag unrhyw un o ba bynnag Ffydd y bydd yn eu cyfarfod ar y strydoedd. Ar ôl ugain mlynedd o wasanaethu mewn plwyf caled ac aml-ffydd Lozells yn un o faestrefi Birmingham, mae Jemima bellach yn ei hymddeoliad yn efengylu o fewn plwyf y Drindod Sanctaidd yn Richmond, Llundain. Yno mae'r offeiriaid yn cyfeirio ati fel eu "hefengylydd neilltuol". Mae'n barod i siarad ag unrhyw un, boed gyda phobl yn ciwio am fws, mewn siop goffi, neu y sawl sy'n prynu peint o lefrith. Yn aml cychwynna'r sgwrs trwy gyfeirio at y tywydd, neu drwy wenu wrth gyfarch baban bach ond yna yn aml mae'r sgwrs yn troi i drafod Ffydd a cheir ganddi bob tro air o gefnogaeth neu anogaeth ac ar adegau rhoddir gwahoddiad i'r Eglwys. "Siaradai yr Iesu â phobl o bob cefndir a sefyllfa," meddai "ond mae'r Eglwys heddiw wedi colli hynny ac ni wn pam. Mae gennym addoldai ysblennydd ac rwy'n hoffi'r gogoniant sydd ynddynt ond mae'r Eglwys hefyd ar y pafin ac yn y siopau". Ganed Jemima yn Ne India a daeth i Brydain yn 1975. Hi yn 1987 oedd y wraig dywyll ei chroen gyntaf i gael ei hordeinio. Galwyd hi gan ei hesgob yn Birmingham yn "fodryb Jemima" a disgrifir hi gan bobl ei chymuned fel "plismon ar ei rawd" gan ei bod byth a beunydd ar y strydoedd. Ond beth am y cysylltiad â phlwyf Caernarfon? Daeth ei phriod Sam yn gurad y plwyf am flwyddyn yng nghanol saithdegau'r ganrif ddiwethaf gan fyw yn nhŷ curad y dref sef rhif 30 Stryd Dinorwig (yno yr oeddwn i yn byw fel curad rhwng 1971-1975). Aeth ati i ddysgu Cymraeg. Bob mis byddai Offeiriaid Deoniaeth Arfon (yn cynnwys Caernarfon) yn cyfarfod a byddai un o'r offeiriaid sef y Parch. Robert Williams yn cyfansoddi englyn perthnasol i bob cyfarfod ac yn eu darllen cyn i bawb ymadael. Dyma ei englyn i Jemima a oedd yn wraig wadd un mis:-

**Mrs Prasadam yn annerch**

Draw o randir yr India, y daw swyn
Priod Sam, Jemeima:
Y mae grym i'w gair yma,
Gyda gwres y ddynes dda.

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



**YN AMLWG I BAWB**

O'r diwedd, mae'r llun ar y wal. Bu'n sefyll yng nghornel yr ystafell ers wythnosau, yn aros i rywun ei godi. Â'i wyneb at y pared, â darn o bren drosto, doedd dim modd ei weld. Ond bellach gall pawb ei weld. A da hynny, oherwydd fe'i prynwyd i'w arddangos, nid i fod yn guddiedig.

Yn y Bregeth ar y Mynydd dywed Iesu fod ei ddisgyblion, fel 'halen y ddaear' a 'goleuni'r byd' (Mathew 5:13–16), yn ddylanwad da. Fel y byddai halen yn cadw cig rhag pydru, gall bywyd glân y Cristion atal drygioni o bob math. Fel y gwelir dinas ar fryn, mae tystiolaeth y Cristion i'w Arglwydd i fod yn amlwg i bawb.

Ond mae Iesu'n pwysleisio'r perygl i'w ddisgyblion laesu dwylo a pheidio â bod yr hyn ydynt.

Gall yr halen golli ei flas, fel nad yw'n dda i ddim 'ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed'. Cristion aneffeithiol yw'r un a beidiodd â bod fel halen.

A gellir cuddio'r goleuni. 'Nid oes neb yn goleuo cannwyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwyllbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ.' Di-fudd yw goleuo cannwyll a'i chuddio dan lestr: wêl neb ei goleuni, a mwy na thebyg y bydd yn diffodd. Nid pethau i'w cuddio yw gweithredoedd y Cristion. Mae'n wir fod Iesu mewn rhan arall o'r Bregeth yn pwysleisio nad yw ei ddilynwyr i wneud daioni 'er mwyn cael eu canmol gan eraill' (6:2), ac nad ydynt i wneud sioe o'u crefydd er mwyn tynnu sylw atynt eu hunain. Ond y mae eu gweithredoedd da, eu hufudd-dod i Dduw a'u cariad at eraill, i fod yn amlwg 'er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd' (5:16).

# Y mae wedi ei gyfodi

## *gan y Parchedig Peter Jennings*

*Ond llefarodd yr angel wrth y gwragedd: "Peidiwch chwi ag ofni," meddai. "Gwn mai ceisio Iesu, a groeshoeliwyd, yr ydych. Nid yw ef yma, oherwydd y mae wedi ei gyfodi, fel y dywedodd y byddai. (Mathew 28: 5-6)*

Yn fy albwm lluniau mae gen i ugeiniau o luniau o fachlud yr haul. Tynnais y rhain dros gyfnod o ryw 60 mlynedd. Yn eu plith, ceir un llun yn unig a dynnwyd pan oedd y wawr yn torri. Byddai gen i well siawns o ymuno â Meibion y Machlud nag â Merched y Wawr! Ac efallai fod gennych chithau fwy o gof o weld harddwch y machlud nag o ddihuno i weld y wawr.

Pan wawriodd bore'r Pasg, roedd nos arswydus Dioddefaint a Marwolaeth Iesu ar ben. 'A dydd cyntaf yr wythnos ar wawrio' yn ôl Mathew – dyma'r wawr fwyaf rhyfeddol, y bore tecaf yn hanes y byd, bore'r Atgyfodiad. Mae'n dechrau gwawrio. Ac mae ystyr gyfriniol i'r geiriau yn ogystal ag ystyr lythrennol. Yn drosiadol, maent yn cyfleu holl ystyr y Pasg i Mair Magdalen a'r Fair arall pan aethant at y bedd; holl ystyr y Pasg i'r disgyblion; a'i holl ystyr i ninnau. Atgyfodiad Iesu oedd y wawr a ddaeth â goleuni i fyd llawn cysgodion gan weddnewid y cyfan. Gwasgarwyd tristwch ac amheuon ar amrantiad. Ailgynheuwyd ffydd, gobaith a chariad mewn calonnau dynol. Dydd yr Arglwydd yw hwn, yn wir, dydd buddugoliaeth ogoneddus.

'A dydd cyntaf yr wythnos ar wawrio' – mae'n symbol o fuddugoliaeth llawenydd dros dristwch, daioni dros ddrygioni. 'Daeth angel yr Arglwydd i lawr o'r nef, ac aeth at y maen a'i dreiglo i ffwrdd ac eistedd arno.' Cyfiawnder sy'n fuddugol. Y moesol ac nid y materol sydd drechaf. Yn y pen draw ni all grym wrthsefyll yr ysbrydol. Pan gyfodwyd Iesu fe brofwyd fel erioed o'r blaen fod y byd yn nwylo Duw cyfiawn. Daeth Iesu, yr un dibechod, yr un y gwnaeth drygioni ei waethaf iddo, yn rhydd o grafangau marwolaeth.

Ar adegau tywyll, llawn amheuaeth, daw'r Pasg â neges ogoneddus o anogaeth i ninnau. Trwy dywyllwch anobaith, fe dorrodd gwawr y Pasg. Mae'n amhosibl credu yn yr Atgyfodiad a chredu ar yr un pryd y bydd y byd hwn yn y diwedd yn drech nag ysbryd Crist. Yn y pen draw, dinistrio ei hun a wnaiff drygioni. Yng ngoleuni datguddiad y Pasg, gadewch i ninnau chwarae ein rhan fel y cyflawnir pwrpas Duw. Yr Iesu Atgyfodedig sy'n dangos buddugoliaeth bywyd dros farwolaeth. Buddugoliaeth lwyr a therfynol sy'n cynnig mwy na gobaith. Yn yr Arglwydd Byw mae gennym sicrwydd tragwyddol mai Bywyd, bob amser ac ym mhob man, sydd yn y pen draw yn ennill.



# Wrth fynd heibio

## *gan William H. Owen*

Rhyw fymryn yn chwerw fu'r teimladau'n ddiweddar wrth glywed y sôn cyson am ddileu'r drwydded deledu. Cyn mynd gam ymhellach rhaid cyfaddef fy mod wedi derbyn cyflog gan y BBC am flynyddoedd ac yn dal i dderbyn cyfraniad (bychan!) o'i chronfa bensiwn. Eto, mae rhywbeth yn dweud wrtha i na fyddwn yn teimlo'n wahanol petawn i erioed wedi tywyllu coridorau Cymreig y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.

Pam? meddech chi. Er pan oeddwn i'n ddim o beth roedd y tair llythyren – BBC – yn golygu rhywbeth, er mae'n siŵr nad oeddwn yn gwybod beth oedd eu hystyr. Yn nyddiau'r radio oedd hynny, a dim ond radio hefyd, ac er mwyn dangos fy oed, radio gyda batri sych a gwlyb. Roedd yr un gwlyb yn medru darfod ar ganol rhaglen a dyna chi greadur piwis oeddwn i wedyn.

Pan oedd y batri'n llawn cawn ymgolli mewn gwahanol raglenni, yn *Awr y Plant* a *Teulu'r Siop,* a byddai'r byd ar ben os oedd rhaid denu'r ddwy fuwch i'r beudy pan oedd *Galw Gari Tryfan* wedi dechrau. Yn ychwanegol at hynny deuai'r BBC i'r ardal. Y tro cyntaf i mi weld y meicroffonau oedd yn y Neuadd Bentref mewn rhaglen o'r enw *O Lan i Lan* gydag Ifan O Williams yn cyflwyno a Cynan a Bob Owen, Croesor ar y panel. Yn bwysicach fyth roedd fy ewyrth Bob yn gofyn cwestiwn i'r pwysigion. Aeth ei gwestiwn yn angof. Ond roeddwn i yno!

Cofiaf y cyffro hefyd fod Teleri Phillips (Bevan wedyn) wedi dod i'r ysgol uwchradd yn fuan wedi i mi gyrraedd yno i gynnal rhaglen gwis i ysgolion gydag Alun Williams. Heb fod yn agos i'r recordiad roedd ymwybyddiaeth yn yr awyr fod y BBC yn bresennol yn rhywle yn yr adeilad. Y tro wedyn roedd yn wahanol. Daeth Wilfred Pickles, a Mabel, a'u *Have a Go* i'n cyfarch yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth boreol.

Ac am ryw reswm rydw i'n dal i gofio ble roeddwn yn eistedd yn galeri'r capel pan gafodd *Oedfa'r Bore* ei darlledu ar droad y chwedegau, a bod yn yr un sedd ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr* yn y pnawn. Dwy raglen 'fyw' oedd y rhain wedi dechrau a gorffen ar amser, yn arbennig wrth i James Williams, BBC Bangor, gyflymu'r canu.

Gallwn raffu rhagor o brofiadau – y cyfan yn dangos mor glir sut y mae'r BBC wedi byrlymu drwy lawer iawn ohonom ni a gadael ei ôl fel 'Pwllheli' yn yr India Roc. Dyna pam ei bod mor anodd meddwl am fyd heb wasanaeth cyhoeddus y BBC er bod digon o le i'w farnu bob dydd o'r wythnos. Dyna'n hawl am mai arian cyhoeddus sy'n ei gynnal. Y gri fawr yw fod rhaid iddynt addasu i'r oes. Mae hynny wedi bod yn wir ar hyd y blynyddoedd ac ni chafodd y Gorfforaeth yr un hergwd fwy nag yn nyddiau Mrs Thatcher. Ac yn awr, wele Boris a'i bartner Dom.

Llef egwan fydd hi ond dowch i ni ddweud wrthynt fod darlledu cyhoeddus yn agos at ein calon. A'n bod ni, siaradwyr Cymraeg, yn gwybod iddo ddiffinio'r Gymru hon.

Bwriadwyd cynnal Cyfarfod Gwanwyn Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain ar Ebrill 25ain 2020.

*Orig yng nghwmni Angharad Tomos* gyda stondin 'Moes a Phryn', arian yn mynd at y *Methodist Migrant Cafeteria* yn Tijuana, ar y ffin rhwng Mecsico a'r UD. Lle yw hwn i gynorthwyo ymfudwyr, alltudion a'r digartref yn gorfforol, emosiynol ac ysbrydol. Gofynnir yn garedig am roddion o bethau ymolchi, bwydydd, crefftau ayyb.

Gwaetha'r modd nid yw yn awr yn bosibl oherwydd coronafirws ond gobeithir ad-drefnu yn yr hydref.

SUT MAE
GWEITHREDU DROS BLANT
YN GWEITHIO

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

I gofio'n annwyl am y Parchg. Gwylfa H a Mrs Doris Morgan
gan Eirian, Alwyn a Wyn £25.00

I gofio'n annwyl am y Parchg. Arthur Ll. a Mrs Cavell Williams
gan Gareth a Hywel £25.00

I gofio'n annwyl am y Parchg. Clifford a Mrs Lillian Roberts
gan Geraint a'r teulu £20.00

I gofio'n annwyl am y Parchg. William O Thomas
gan Ann, Nia a Bethan £25.00

Salem, Rhyd-y-foel (Nadolig 2019) £250.00

Anfonwyd cyfanswm o £345.00 yn enw Synod Cymru.
Gyda diolch am bob cyfraniad.

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan, Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717
cwrteden@gmail.com

O.N. Ni allwn ond diolch uchod am y rhoddion / cyfraniadau sydd wedi eu danfon i ni. Nid oes sicrwydd fod unrhyw gyfraniad sy'n cael ei ddanfon yn syth i'r Brif Swyddfa yn Watford yn cael ei gyfrif tuag at gyfanswm Synod Cymru.

# Deled dy Deyrnas 2020

**"Ni fethodd gweddi daer erioed â chyrraedd hyd y nef"** canodd William Williams, ac o! pa mor wir yw ei eiriau.

Nid y Pêr Ganiedydd oedd yr unig un yn hanes yr eglwys i esbonio beth all gweddi ei roi i ni. Dywedodd Julian o Norwich (meudwyes oedd yn byw yn y 14ganrif) fod gweddi yn *uno*'r enaid â Duw a hefyd taw Duw yw ffynhonnell pob gweddi. Paradocsaidd, efallai? Mae Duw am i ni weddïo'n gyson ac yn hael ("peidiwch â chadw dim byd yn ôl," meddai hi, "a gwyliwch beth sy'n digwydd!"). Hyd yn oed ar y dyddiau sych, gwag, pan ydym yn teimlo bod pob ymdrech yn ofer, gweddïwch! Oherwydd dyna pryd y bydd yr Ysbryd Glân yn symud i mewn i'n calonnau. Paradocsaidd, yn sicr!

Os oedd y Fonesig Julian yn gywir, siŵr bod hyd yn oed pum munud o weddi bob dydd yn gallu gwneud gwahaniaeth. Mae Paul yn atgoffa pobl Thesalonica i weddïo'n ddi-baid; ac i Iago troi at Dduw yw'r ateb i'n problemau: "Oes rhywun yn eich plith chi mewn trafferthion? Dylai weddïo." (Iago 5:13)

Felly hoffwn annog darllenwyr *y Gwyliedydd* i dreulio cwpwl o funudau bob dydd rhwng y Dyrchafael (21ain Mai eleni) a'r Sulgwyn (31ain Mai), cyfnod ymdrech ryngwladol *Deled dy Deyrnas* i weddïo dros ein byd ni, a'n gwlad ni, a'n heglwys ni, ac yn arbennig dros y rhai ymhlith ein teuluoedd a'n ffrindiau sydd ddim yn nabod yr Iesu.


*Dduw Hollalluog, mae dy Fab a esgynnodd wedi'n hanfon allan i'r byd i bregethu newyddion da dy deyrnas: ysbrydola ni â'th Ysbryd a llanw ein calonnau â thân dy gariad, fel y bydd pawb sy'n clywed dy Air yn cael ei dynnu atat ti, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.* ***Amen***

BET HOLMES

# cartŵn



# TUDALEN Y PLANT



[Llun: Free Bible Images]

## Y Pasg

Ar Ddydd Gwener y Groglith cofiwn sut y dioddefodd Iesu a chael ei groeshoelio. Bu farw a chafodd ei gladdu.

Ar Sul y Pasg dathlwn fod Iesu wedi atgyfodi. Daeth at ei ddisgyblion.

“Roedden nhw wedi cael braw. Roedden nhw’n meddwl eu bod nhw’n gweld ysbryd.

Ond dyma Iesu’n gofyn iddyn nhw, “Beth sy’n bod? Pam dych chi’n amau pwy ydw i? Edrychwch ar fy nwylo a’m traed i. Fi sydd yma go iawn!”
[Luc 24:37-39 beibl.net]

## Gweddi

Arglwydd ein Duw, diolchwn i Ti am y Pasg. Amen.

